# Egluro'r broses o Gynllunio System Ynni Gyflawn

**Mae system ynni Prydain Fawr yn darparu sylfaen gref, sicr, a dibynadwy ar gyfer ein cymdeithas a'n heconomi. Mae'n pweru ac yn gwresogi ysgolion, ysbytai a busnesau ac yn cynnal llawer o wasanaethau eraill – fel trafnidiaeth, amaethyddiaeth, adeiladu, a chyllid.**


Mae ein system ynni'n newid yn gyflym. Rydym nawr yn gweld mwy o opsiynau gwresogi a theithio sy'n cael eu pweru gan drydan, sy'n golygu felly bod trydan adnewyddadwy yn ymledu a bod y galw am ynni hyblyg a dibynadwy yn cynyddu. Mae'r newidiadau hyn yn golygu bod penderfyniadau ynni yn fwy cysylltiedig â'i gilydd nag erioed; mae'r hyn sy'n digwydd mewn un rhan o'r system yn effeithio ar weddill y system.

## Beth mae ynni cyflawn yn ei olygu

Mae ynni cyflawn yn golygu ystyried sut mae gwahanol rannau o system ynni Prydain Fawr yn cydblethu. Mae hynny'n cynnwys trydan, nwy, a thanwyddau'r dyfodol fel hydrogen.

Yn NESO, rydym yn cynllunio ar gyfer pob rhan o'r system ynni gyflawn. Ni yw'r sefydliad cyntaf ym Mhrydain Fawr i wneud hynny. Mae pwyslais mawr ar drydan, nwy a hydrogen, gan fod y rhannau hyn o'r system yn cydblethu mwy â'i gilydd – mae penderfyniadau mewn un rhan yn cael effaith fawr ar y rhannau eraill.

Rydym yn cynghori ac yn gweithio gyda llywodraethau, Ofgem, a diwydiannau. A bydd y cynlluniau rydym yn eu gwneud heddiw yn siapio system ynni Prydain Fawr am ddegawdau.




## Rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu ynni

Ym Mhrydain Fawr, rydym yn cludo ynni drwy ddau rwydwaith. Mae ceblau uwchben a cheblau tanddaearol yn cludo trydan, ac mae pibellau tanddaearol yn cludo nwy naturiol.

- Mae'r rhwydweithiau trawsyrru nwy a thrydan yn debyg i draffyrdd ynni. Maent yn cludo ynni yn bell o'r man lle mae'n cael ei gynhyrchu, i'r man lle mae angen yr ynni.
- Mae rhwydweithiau dosbarthu fel ffyrdd A, B ac C sy'n dod ag ynni i'n drws ffrynt. Mae rhwydweithiau dosbarthu yn cludo ynni o'r systemau trawsyrru cenedlaethol o amgylch ein rhanbarthau i gartrefi a busnesau.

## Ble mae'r rhwydweithiau'n cwrdd

Mae rhwydweithiau trawsyrru'n defnyddio trydan foltedd uchel a nwy pwysedd uchel. Ond nid yw hynny'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o gwsmeriaid ynni, sy'n cysylltu â'r rhwydweithiau dosbarthu foltedd isel a phwysedd isel.

NESO
National Energy System Operator

Pan fydd y rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu yn cwrdd, maent yn trosi ynni i lefelau is, er mwyn gwneud yr ynni'n ddiogel i bobl ei ddefnyddio. Mae'r rhwydweithiau dosbarthu wedyn yn darparu'r ynni i gwsmeriaid.

## Pam mae cynllunio system ynni gyflawn yn bwysig

Mae dewisiadau ynni yn cydblethu â'i gilydd. Er enghraifft:

- Mae newid i ddulliau gwresogi trydanol yn cynyddu'r galw ar rwydweithiau trydan
- Mae defnyddio hydrogen yn newid y ffordd mae rhwydweithiau nwy yn cael eu defnyddio
- Bydd gwybod pa ddiwydiannau allai ddefnyddio hydrogen yn y dyfodol yn effeithio ar ble y mae angen hydrogen
- Lleoliad y cynnydd yn y galw sy'n llywio ble y mae angen seilwaith newydd ar Brydain Fawr – fel peilonau, ceblau a phibellau.

Rhaid i bobl wneud dewisiadau anodd ynghylch sut a phryd maent yn lleihau eu heffaith carbon. Mae'r dewisiadau hynny'n effeithio ar ba seilwaith y bydd ei angen arnom. Heb system ynni gyflawn, mae risg o'r canlynol:


- Cyflenwad llai dibynadwy i gwsmeriaid
- Gwariant gwastraffus, neu wario ar yr un pethau dro ar ôl tro
- System ynni ddrutach.

Mae cynllunio system ynni gyflawn yn helpu i osgoi'r risgiau hyn.

## System ynni gyflawn ar waith

Mae cynllunio system ynni gyflawn yn edrych ar gysylltiadau a chyfaddawdau, fel:

- Archwilio sut mae gwahanol opsiynau gwresogi yn effeithio ar ein rhwydweithiau trydan a nwy
- Defnyddio dulliau storio a galw hyblyg i leihau'r angen am geblau, pibellau, a pheilonau
- Cynllunio rhwydweithiau ar sail lle mae'r galw am ynni'n cynyddu – nid dim ond ar sail faint mae'n cynyddu.



**Edrychwch ar ein hanimeiddiad ar gyfer y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog**

Mae'r cysylltiadau hyn yn allweddol i'n helpu i greu system ynni effeithlon.

## Manteision cynllunio system ynni gyflawn

Mae cynllunio system ynni gyflawn yn ein helpu i wneud y canlynol:

- Lleihau costau hirdymor, sy'n helpu i gadw biliau ynni'n isel
- Sicrhau system ynni fwy dibynadwy
- Lleihau allyriadau'n fwy effeithiol
- Gwneud penderfyniadau buddsoddi doethach ac osgoi gwastraff.

## Mae eich barn chi'n bwysig

Mae mewnbwn rhanddeiliaid yn hollbwysig wrth gynllunio system ynni gyflawn. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod ein cynlluniau'n weladwy, ac yn rhoi cyfle i bobl ar draws Prydain Fawr siapio ein gwaith ar bob cam.

Byddwn hefyd yn:

- Parhau i ofyn am fewnbwn gan randdeiliaid, yn enwedig rhanddeiliaid ym maes diwydiant a maes yr amgylchedd
- Gofyn am fewnbwn gan randdeiliaid a allai fod yn rhan o'n cynlluniau ar gyfer system ynni gyflawn, gan gynnwys y Cynllun Rhwydwaith Strategol Canolog a Chynlluniau Ynni Strategol Rhanbarthol
- Ymgynghori ar ein cynlluniau drafft ar gyfer system ynni gyflawn a'n hasesiadau amgylcheddol
- Parhau i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith ar draws rhanbarthau a gwledydd.

WECY01 | Mehefin 2026

## Unrhyw gwestiynau? Cysylltwch â ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm.

**neso.energy/network-planning**

**box.sep-portfolio@neso.energy**

NESO
National Energy System Operator